

Strategaeth Cyfiawnder, Urddas a Chydlyniad

## Mynd yn Eglwys Fethodistaidd fwy cynhwysol: Pam mae hyn yn bwysig?

Yma, isod, ceir rhai dyfyniadau gan aelodau Methodistaidd gwirioneddol sy'n dangos ym mha ffordd y mae angen i ni newid a pha mor fawr yw'r gwahaniaeth pan wnawn ni hynny!

Holl ystyr y gwaith hwn (ein gwaith ni o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant) yw bod pob unigolyn wedi ei wneud ar ddelw Duw, yr alwad Feiblaidd i gyfiawnder, yr ymgnawdoliad, am ddoniau'r Ysbryd Glân i'r holl rai a fedyddiwyd, ac ynglŷn â llawer iawn mwy na chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae'r materion hyn yn bwysig i ni am ein bod ni'n bobl sy'n credu ac yn ddisgyblion i Iesu Grist. Gorchymyn yr Efengyl yw bod Crist i bawb. Rydym ni'n un yng Nghrist.

Cawsom ein galw i 'garu ein cymdogion fel nyddi ein hunain'.

Fe geir dyfyniadau isod sy'n dangos yr heriau y mae rhai aelodau Methodistaidd wedi eu hwynebu nhw ledled y wlad.

- A. "Sawl blwyddyn ar ôl i mi glywed nad oeddwn i'n addas ar gyfer y swydd – ac wedi i mi holi fy hunan am achos hynny – fe wnes i fagu digon o hyder i godi'r mater gyda phobl eraill. Dyna pryd y gwnes i sylweddoli bod yr ymdeimlad yn treiddio trwy'r system gyfan. Nid oedd neb 'fel y fi' yn cael ei ystyried yn addas."
- B. "Roedd yna ddau weinidog ordeiniedig ar dîm staff pob eglwys pob amser, ond y fi oedd yr unig fenyw gyda phedwar dyn. Pan glywodd gweinidog eglwys arall fod fy nghydweithiwr i'n ymddeol, fe edrychodd ef yn syth ataf i, a dweud "felly "fydd gan yr [eglwys honno] ddim gweinidog wedyn."
- C. "Mae rhai pobl yn ceisio bod yn garedig ac yn gwneud eu gorau, ond maen nhw mor nawddoglyd. Fe es i'r holl ffordd i'r capel yn fy nghadair olwyn ar fy mhen fy hun ac roeddwn i'n teimlo yn falch ac yn hwyliog iawn."

Gweithio tuag at Eglwys  
Fethodistaidd gynhwysol

[www.methodist.org.uk/inclusive-mc-strategy](http://www.methodist.org.uk/inclusive-mc-strategy)



Edrychodd y stiward a oedd yn croesawu ar y gadair a dweud, 'O, mae'n wir ddrwg gen i'."

- D. Yn ein Cyfarfod Pregethwyr Lleol ni fe glywais i rywun yn dweud, "Wel fe fydd gennym ni broblem y flwyddyn nesaf oherwydd dau o Gana ac un o Sri Lanca sydd gennym ni mewn hyfforddiant". Pam wyf i'n cael fy ystyried yn broblem? Fe wnaeth hynny i mi deimlo fel rhoi'r ffidil yn y to yn y fan a'r lle"
- E. "Rwy'n ofni pe byddem ni'n methu ag anwesu'r bererindod hon, neu'n rhoi'r gorau iddi am ei bod yn rhy galed, neu'n rhy beryglus, fe fyddwn ni wedi troi ein cefnau ar yr efengyl a heb fod â newyddion da i'r byd."
- F. "Rwyf i wedi bod yn aelod o'r cyngor eglwysig am bum mlynedd ond nid wyf i wedi teimlo yn ddigon cysurus i siarad. Fe adewais i'r ysgol yn 16. Pan gaiff y dogfennau eu dosbarthu cyn y cyfarfodydd, rwy'n gallu dilyn heb anhawster ond mae aelodau eraill o'r cyngor wedi gwrthwynebu gwneud hynny'n ymarfer arferol. Rwyf i wedi cael hyfforddiant at lefel y gylchdaith yn ddiweddar gyda rhagor o ddogfennau maith a sleidiau PowerPoint manwl sydd wedi amharu fwy fyth ar fy hyder i. Mae amgylchiadau fy swydd i yn ei gwneud hi'n anodd i mi warantu ymlaen llaw y byddaf i'n gallu mynychu cyfarfodydd. Mae hynny wedi arwain at holi ynglŷn â'm hymrwymiad a'm hymroddiad i, sy'n annifyr."
- G. "Nid oeddwn i wedi gwneud fy rhywioldeb i'n amlwg yn yr eglwys ond dim ond oherwydd nad oeddwn i erioed wedi teimlo'r awydd i ddatgan hynny'n uchel oherwydd dyna pwy ydw i wedi bod erioed. Nid wyf i wedi celu hyn erioed ond nid oes neb wedi holi erioed. Roedd fy ffrindiau i'n gwybod, ac fe gododd hynny weithiau yn y grŵp ieuencid, felly roeddwn ni'n credu bod yr arweinyddion yn gwybod. Ni wnaethon nhw erioed sôn na fyddai Duw yn fy ngharu i'r un fath, ac felly ni feddyliais i erioed na fyddai rhywun arall o'r un ffydd â mi'n caru pawb yr un fath heb ystyriaeth i'w rhywioldeb... pan ddaeth hi i'r amlwg fy mod i'n anghywir, mi fues i'n crïo am gymaint o amser. Cymaint o gasineb. Cymaint o ofn. Ac i beth? Am nad oeddwn i'n ceisio denu eu gwragedd nhw? Nid gwyredig rhywiol yn ysglyfaethu ar y diniwed oeddwn i. Y cyfan yr oeddwn i'n ei ddymuno oedd cael fy ngharu

am bwy oeddwn i.”

- H. “Fe stopiais i fod yn Ddarllenydd ar gyfer darlleniadau o'r Beibl oherwydd nad oedd y llwyfan newydd, uwch yn cynnwys ramp ac mae angen hygyrchedd â chadair olwyn arnaf i.”
- I. “Aelod wyf i mewn eglwys ar y ffin rhwng y rhan gefnog o'r dref a stad fawr o dai. Roedd ymagwedd yr aelodau yn achosi pryder cynyddol i mi ac fe awgrymais i y gallai'r eglwys ddechrau ymestyn allan i'r stad. Mynegodd aelodau bryderon ynglŷn ag effaith ymestyn allan i'r stad ar yr eglwys, gan ddefnyddio iaith sy'n stereoteipio fel da i ddim, byw ar y clwt, di-waith a diog. Fe ddywedwyd wrthyf i, ‘Nid ydym ni am eu cael nhw yn ein heglwys ni.’”
- J. “Dywedodd rhywun wrthyf i, ‘Gan eich bod chi ar y pwyllgor, rydych chi o gymorth i ni oherwydd rydym ni'n gallu rhoi tic yn y blwch cynhwysiant.’” “Mae hi wedi bod yn fraint bod yn y Gynhadledd ond fe fyddwn ni wedi hoffi cynnig pan oeddwn i'n iau. Ni ddywedodd neb wrthyf i ei bod yn rhad ac am ddim ac er y byddwn i wedi cymryd wythnos i ffwrdd ni feddyliais i y byddai rhywun arall yn talu fy nghostau i!”
- K. “Roedd rhywun yn fy llygadu i bob amser, rhywun yn nodi'r hyn yr wyf i'n ei wisgo neu sut olwg sydd arnaf i, ac er fy mod i'n ceisio osgoi gwneud hynny, rwy'n teimlo pan fyddaf i'n siarad mewn cyngor eglwys neu unrhyw gyfarfod ynglŷn â'r eglwys, mae pobl yn edrych ar eu hesgidiau nhw, neu'n rhoi ochenaid, neu'n crechwenu yn nawddoglyd, yn ymdrechu i oddef ‘caniatáu’ i mi siarad. Ond nid oes neb yn gwranddo ar yr hyn yr wyf i'n ei ddweud. Pa mor falch fyddwn i o allu siarad heb ofni fy mod i'n cynhyrfu'r dyfroedd. Pa mor braf fyddai peidio â theimlo mor unig yn yr eglwys.”

Ar y llaw arall... dyma rai dyfyniadau sy'n dangos y gwahaniaeth mawr a wna rhoi sylw i'r naill a'r llall a newid ein ffordd ni o fwy er mwyn i'r holl bobl fod â rhan gyfartal yn yr Eglwys Fethodistaidd.

- a) “Rwyf i'n ddyslecsig, ac rwy'n ei chael hi'n anodd iawn defnyddio naill ai'r sgrîn neu'r copi print arferol o Ganeuon Ffydd. Yn un o'r eglwysi lle'r wyf

i'n weinidog, pan ddywedais i wrthyn nhw fy mod i'n cael problemau, fe wnaethon nhw brynu copïau print bras o'r llyfr emynau a rhoi un ohonyn nhw yn y festri fel y byddwn i'n gallu ei gael yn barod ar gyfer gwasanaethau. Roedd hi'n braf iawn cael fy nghofalu amdanaf yn y ffordd ymarferol iawn honno. Ynghyd â gwneud yn siŵr fod yna bapur lliw yn y ffotogopiwr bob amser i mi, mae hyn yn dangos sut gall camau syml wneud gwahaniaeth mawr."

- b) "Rwyf i wedi cael fy nghalonogi yn fawr fod Pwyllgor Polisi'r Dalaith fy nhalaith i wedi newid ei amseroedd er mwyn i mi allu ymuno ag ef. Nid oedd angen iddyn nhw wneud hynny, ar un ystyr, ond am fy mod i'n gweithio fe fyddai hi'n amhosibl i mi fynychu'r cyfarfodydd, hyd yn oed ar ôl i mi gael fy mhleidleisio i mewn yn unigolyn iau. Maen nhw wedi mynd o'u ffordd pob un er mwyn i mi allu bod â rhan ac rwyf innau'n gwerthfawrogi hynny."
- c) "Rwyf i wedi dioddef o salwch meddwl am flynyddoedd lawer, ac mae byw mewn ardal fechan yng nghefn gwlad, lle mae pawb yn gwybod llawer iawn am bawb arall, yn gallu gwneud i mi ddymuno cuddio o'r golwg. Er hynny, rwyf i wedi gweld yr eglwys yn gefnogol iawn. Pan fyddaf i'n cael dyddiau isel, rwy'n gallu rhannu hynny gyda phobl gan wybod y bydden nhw'n gweddïo. Pan gaf i ddyddiau da, rwy'n gallu rhannu hynny hefyd ac fe fydd pobl yn cydlawenhau gyda mi. Daeth cymuned yr eglwys yn wir deulu i mi. Hyd yn oed yn y clo, maen nhw wedi bod ar gael mewn neges grŵp *What's App*."
- d) "Er bod pobl yn fy adnabod i pan oeddwn i'n ferch yn yr eglwys maen nhw wedi fy nerbyn i am bwy ydw i dros y blynyddoedd hyn i gyd a dangos eu bod nhw'n fy ngharu i ni waeth faint bynnag y gallwn i newid"
- e) "Bydd hynny yn gofyn, oddi wrth bawb ohonom ni, edifeirwch a gobaith, amynedd ac ymroddiad. Ond beth am ddychmygu ein bywyd ni gyda'n gilydd fel dawnys sy'n newid yn barhaus, lle gellir cyflwyno camau newydd, ac archwilio rhythmiau a symudiadau newydd; lle bydd pob cyfarfyddiad â'r 'arall' yn cael ei ystyried yn gyfle i brofi cyfoethogi wrth i ni ddarganfod agweddau newydd ar ein dynoliaeth gyffredin ni?"